

CYMRAEG (IAITH GYNTAF)

Amser - 1.5 awr

Ateba ddau gwestiwn, un o Adran A ac un o Adran B

Adran A – Gwerthfawrogi llenyddiaeth

1. Ysgrifenna werthfawrogiad o naill ai (a) y gerdd, neu (b) y darn rhyddiaith isod, gan roi sylw manwl i'r cynnwys ac i'r arddull

(a)

arddangosfa

(i'r *Gusan*, Auguste Rodin)



Ymlusgo'n ddiogel ddiflas o lun i lun
heb weld 'run diben
i'r daith falwen
ar hyd orielau fyddai'n farw
oni bai am ein siffrwd slei
– tewch, ferched! –

a gwich gorfodaeth
ein sgidiau synhwyrol,
gweddus
yn gyfeiliant
i'r sylwebaeth fwl;

heibio i ryw lilis dŵr mewn pwll,
a glaw mawr ar gae
yn rhywle,
ac eglwys gadeiriol
yn machludo'n syrffedus
ar noson na welsom
harddwch gwrid ei gosber
y prynhawn hwnnw;

ymlaen at bontydd, dŵr dan niwl,
nes ein hatal
gan dalp o realaeth,
i'n golwg ni,
a'n tynnodd yn gylch
annisgwyl ei awch am gelf,
a ninnau'n gegrwth
wrth gywilydd noeth
cwlwm o gusan gain;

cyn ein hysio ymlaen
– dewch, ferched! –
o olwg anwes efydd, llyfn fel llaid
ar fron, ar fraich,
o olwg pwysau llaw,
meddalwch parod clun,
at blatiau, tebot propor,
ac arddangosfa arall
fu'n llai angerddol ei hargraff
ar glai ein glasfeddylliau
ddiwedd prynhawn poeth.

(b)

Mae'r afon fach yn fudr. Lliw cwrw sydd ar y dŵr, ac mae yna ddarnau o ffroth yn nofio ar yr wyneb ac yn cael eu dal rhwng clymau o frigau a gwreiddiau. Afon o gwrw, llawn swigod a baw a phenglogau hen ddefaid. Does dim ots. Fy afon i ydi hi. Fi piau'r fan hyn. Ebrill ydi hi. Y pedwerydd ar ddeg. Heddiw mae mis Mawrth yn cael peidio â bod. Uwchben mae'r cymylau'n ysgafn, yn llawn gwynt, fel gwynwy wy wedi'i gnocio nes ei fod o'n sefyll yn bigau. Wrth edrych i ddŵr yr afon rydw i'n cofio dydd Sul, d'r dŵr brown yn y sinc ar ôl iddi hi olchi'r tŷn cig, a hithau'n dweud wrtha i bod Emlyn Meini Gwynion yn dod aton ni i fyw.

'Mari! Mari!'

Clywaf lais Luned, yn fain ac yn bell, yn llusgo ar y gwynt fel cri aderyn cors. Gwrthodaf ei hateb, dim ond gadael i'w sŵn hi gymysgu efo synau'r adar. Mi fydd hi'n siŵr o gael hyd i mi heddiw. Cha' i ddim cuddio yma go iawn am sbel o achos na fydd arni hi ddim ofn croesi'r caeau am dipyn eto; mae Huw Tŷ Calch wedi symud y defaid ers tro byd a dydi'r gwartheg duon byth wedi cyrraedd. Rheini sy'n dychryn Luned. Bob yn ail fyddan nhw'n dod. Defaid, wedyn gwartheg, a sbelan yn y canol lle nad oes yna ddim byd, dim ond esgyrn defaid ers talwm yn sgleinio'n wyn ac yn lân fel dannedd newydd.

Mae'n well gen i'r gwartheg. Nhw sy'n gallu cadw Luned draw. Pan fydd hi'n glawio mi fyddan nhw'n gwardio ger ymyl y clawdd, yn codi'u llygaid heb godi'u pennau. Tu ôl i'w llygaid maen nhw'n gallu cuddio rhag pawb. Dyna ydi cuddio go iawn, cau eich meddyliau i gyd yn eich pen. Fedar neb weld neb yn y fan honno.

'Fan'na'r wyt ti! Be ti'n 'neud?'

Rydw i'n teimlo'n flin am nad ydw i'n gwneud dim, ond doedd hynny ddim yn gwneud i mi deimlo'n euog nes i Luned gyrraedd. Wrth i mi sythu'n sydyn mae fy nghoesau'n drwm ac yn llawn pinnau mân ar ôl cyrcydu mor hir.

'Ddudodd dy fam 'na fama basat ti. 'Di mynd ar draws caeau Tŷ Calch i hel dy draed, medda hi.' Mae llais Luned ar fy mhen i, yn difetha pob dim.

'Dos o' ma!

'Ti'n dwad am dro, ta be? Ma' fama'n ddiflas.' Mae hi'n cogio peidio sylwi nad oes arna i ddim o'i heisiau hi. 'Tyrd yn dy flaen, yr hulpan.'

Mae hi'n troi rhywbeth pinc yn ei cheg, o ochr i ochr, i fyny ac i lawr. Yn gwneud i mi feddwl am y gwartheg duon. Gŵyr hithau ei bod hi wedi dwyn fy sylw i o'r diwedd.

'Be ti'n gnoi?'

'Bybl gym. Isio darn?' Mae'i gwallt hi'n gudynnau blêr o gwmpas ei dannedd hi.

'Dwi ddim yn gwbod.' Gwn fy mod i'n swnio'n bwdlyd. Mae'r smotiau o frychni haul ar drwyn Luned wedi dechrau cyffwrdd â'i gilydd, yn staenio'n frown fel diferion o de ar liain.

'Dyma ti, ta.'

Adran B – Defnyddio'r iaith

Ateba naill ai gwestiwn 2 neu gwestiwn 3.

2. Cyfieitha'r darn canlynol i Gymraeg safonol:

My first experience of life at Aberystwyth University, I suppose, was the Open Day I attended that autumn. When I glanced through the window as the train crawled into the station, all I could see were hordes of students in yellow T-shirts the length of the platform.

'Open Day?' a girl with red hair asked me as I stepped down through the automatic doors.

'Er, yes. I think so.'

Before I knew what was happening, I was following her out and into a tiny car park where a bus, already half-full of people, was waiting. There was a

confusion of shops and people and tight corners, and then the road seemed to widen and we were climbing out of the town pas a hospital and a sign for the National Library. Where was the sea? All I knew about Aberystwyth was that it was by the sea.

As the bus turned into the campus and I looked back down the hill, there it was: blue and sparkling. This, I decided, there and then, was where I wanted to be.

3. Ailysgrifenna'r darn isod, gan ffurfioli'r iaith (heb newid yr ystyr) a chywiro'r holl wallau. Yna esbonia unrhyw ddeg o'r gwallau a danlinellwyd, gan ddefnyddio'r termau gramadegol priodol, hyd y gelli.

Mae genym digon o rheswm dros amau pethau ym mhapurau newydd ac ar y teledu a radio a'r cyfryngau cymdeithasol y dyddiau hyn. Galwir y peth yn 'fake news' neu 'newyddion ffug'. Gyda papurau newydd, ceir duedd i gam-arwain ddarllenwyr wrth ddefnyddio telerau fel 'sgandal' a 'sioc' hyd yn oed os nid oes unrhywbeth yn bod. Roedd stori o'r fath yma yn y *Sun* neu'r *Mirror* yn ystod yr Haf: '*Royals caught in killer scandal*'. Stori oedd e yn dweud roedd dyn wedi lladd rywun mewn damwain car blynyddoedd yn ol a cael job wedyn yn gegin Palas Buckingham. Pam ydyn ni'n gwastraffu ein arian ar nhw?

Y prif broblem gyda cyfryngau cymdeithasol fel Twitter yw ei bod yn creu storiau ac heb unrhyw atebolrwydd. Mae'n hawdd creu cyfrif yn ddi-enw a cyhoeddi bob math o straeon arni hi. Er enghraifft, ryw fis yn nôl, roedd ddarn amdan wleidydd Llafur Cymru yn dweud bod e'n cael affair gyda'i hysgrifenyddes. Y ffaith yw ei bod nhw'n priod!

Cred rhai pobl nid oes ddigon o rheolaeth – ac rwy'n fodlon cyd-fynd.